# Creu Cerdd

## Mari George




**Y broses**

I mi, mae egin syniadau am gerddi'n gorwedd yn yr isymwybod tan fy mod yn barod amdanyn nhw. Maen nhw'n dod o sefyllfaoedd bob dydd neu olygfeydd neu ddarnau rwy wedi eu darllen neu emosiynau rwy wedi eu teimlo. Mater o diwnio i mewn i'r syniadau yw hi wedyn pan fydd y testun neu'r achlysur yn gofyn am gerdd benodol. Dydw i ddim yn dueddol o ysgrifennu am bethau nad oes gen i brofiad uniongyrchol ohonyn nhw. Y peryg, yn fy marn i, o greu cerdd am bethau dieithr yw ei bod yn anodd peidio â bod yn ystrydebol. Mewn sefyllfa o'r fath, dychmygu teimladau ac emosiynau y bydd rhywun ac felly'n troi at eirfa amlwg. Nid dweud rydw i fod pob sefyllfa yn fy ngherddi i yn wir, ond maen nhw'n aml yn deillio o brofiad neu sefyllfa neu eiliad lle rwy wedi teimlo rhywbeth yn fy nghalon. Gallai hwn fod yn brofiad erchyll fel marwolaeth neu rywbeth mor syml â sylwi ar flodyn yn tyfu yng nghanol chwyn, neu sgwrs ddifyr gyda rhywun. Gallaf adeiladu cerdd o gwmpas profiad go iawn gan wybod fy mod yn ddidwyll ac onest am y teimlad. Mae'r tân sydd ym mola rhywun o fod wedi profi rhywbeth yn gyrru'r gerdd.

Y gamp gyda cherdd effeithiol, rwy'n meddwl, yw'r gogwydd y mae bardd yn ei roi ar syniad, yn hytrach na'r syniad ei hunan. Mae llawer o sefyllfaoedd yn eu cynnig eu hunain i gerdd ond y nod yw gallu gwneud i'r darllenydd weld y syniad neu'r thema drwy sbectol newydd neu edrych ar sefyllfa mewn ffordd hollol wahanol. Dyna fyddaf i eisiau ei gyflawni bob tro wrth ysgrifennu cerdd. Nod arall i fardd yw gallu gwneud i'r darllenydd uniaethu â'r sefyllfa, y profiad neu'r person yn y gerdd. Mae angen gwneud i'r darllenydd deimlo rhywbeth. Boed yn grac, yn annifyr, yn drist neu'n hapus, bydd y bardd wedi llwyddo os yw'r darllenydd yn gallu ymateb mewn rhyw ffordd i'r gerdd. Does dim byd gwaeth na darllen cerdd a theimlo'n oer neu deimlo dim.

**Adeiladu cerdd**

Mae adeiladu'r gerdd orffenedig fel creu jig-so i mi. Y cam cyntaf yw ystyried y thema. Weithiau bydd cystadleuaeth neu gomisiwn neu berson yn pennu'r thema. Byddaf i wedyn yn twrio yn fy isymwybod i ganol y stôr o syniadau sydd yn llechu yna ac yn tynnu un i'r wyneb. Wedyn byddaf yn meddwl sut y gallaf i wneud y syniad yn un diddorol. Sut y gallaf i wneud i'r darllenydd neu'r gwrandäwr feddwl o'r newydd am y thema. Dyma ran anoddaf y broses ac rwy bron yn ddieithriad yn credu ar y pwynt yma na fyddaf i byth yn gallu creu unrhyw fath o gerdd. Pan fydd y diffyg creadigrwydd yma'n taro nid eistedd am oriau yn meddwl yn amyneddgar y byddaf i nes bod cerdd yn dod. Fy ysbrydoliaeth i bob tro fydd darllen cerddi eraill, yn unrhyw iaith. Byddaf yn ceisio sylwi ar sut y mae'r bardd yn mynd ati i gyfleu ei neges. Mae hi mor bwysig darllen gwaith gymaint o feirdd â phosibl. Mae hi hefyd yn bwysig dal ati, pan fydd yr awen fel pe bai wedi diflannu. Mae ysgrifennu unrhyw beth yn

well na dim. Rhywbeth arall sy'n fy ysbrydoli yw mynd am dro. Mae rhywbeth am yr awyr iach a sŵn natur sy'n gwneud i mi ymlacio a dyna pryd bydd fy nghreadigrwydd yn deffro. Fe af am dro yn unrhyw dywydd ac fe af yng ngolau dydd neu dywyllwch, mae pob tymor a phob math o dywydd a golau'n sbarduno'r awydd i farddoni. Fel arfer fe fyddaf yn clywed neu weld rhywbeth fydd yn esgor ar air neu ddelwedd a fydd yn aros yn fy mhen. Byddaf i'n gwybod wedyn mai calon fy ngherdd i fydd y gair neu'r geiriau neu'r ddelwedd yna.

**Rhoi'r broses ar waith**

Gyda'r gerdd 'Cyfri'r gost' roedd y teitl wedi ei osod ar gyfer un o rowndiau cystadleuaeth *Y Talwrn* (BBC Radio Cymru). Roeddwn am ysgrifennu am berson a oedd yn gaeth i gamblo i ddechrau. Ond roedd popeth roeddwn yn ei ysgrifennu yn teimlo'n ystrydebol rywsut, felly fe benderfynais droi pethau wyneb i waered a defnyddio gamblo fel delwedd ar gyfer rhywbeth mwy perthnasol i mi. Roeddwn wedi gweld mam a'i phlentyn; roedd y fam yn chwarae gyda'i ffôn ac yn anwybyddu'r plentyn a'r peth cyntaf a wnes i oedd beirniadu'r fam. Ond o feddwl rhagor am y sefyllfa, sylweddolais fy mod innau, fel mam, hefyd yn euog o fod ar fy ffôn yng nghwmni'r plant. Roedd y rhagrith roeddwn yn ei deimlo'n ddigon cryf imi fod eisiau llunio cerdd am y peth. Roedd rhywbeth yma i'w archwilio. Roedd y darlun o fam yn anwybyddu ei phlentyn yn bwerus ac yn rhywbeth y byddai nifer yn gallu uniaethu ag ef. Penderfynais ddefnyddio gamblo fel delwedd drwy'r gerdd. Y fam yn gaeth i'w ffôn a hefyd yn ddiarwybod iddi yn gamblo amser a sylwedd bywyd y plentyn, ac yn y pen draw byddai'r plentyn o bosib yn gwneud yr un peth. Y cwbl fel cylch dieflig.

Rwy bob amser yn teipio'r syniad a'r ddelwedd. Fyddaf i byth yn defnyddio papur a phensil y dyddiau hyn. Mae teipio'n haws i mi fel fy mod yn gallu symud geiriau o gwmpas neu eu dileu a does dim blerwch na dryswch ar y dudalen. Bydd llinell yn ffurfio o gwmpas y ddelwedd greiddiol a chlwstwr bach o eiriau a dyna fydd man cychwyn y gerdd i mi. Yna byddaf i'n aros i'r geiriau lifo ac yn creu rhyw fath o stori fer, fer ar ffurf cerdd. Wedyn byddaf i'n ymestyn y ddelwedd. Rwy bob amser yn gwneud hyn am mai dyna fy arddull bersonol i. Mae'r gerdd yn teimlo'n fwy o grefftwaith i mi os ydw i wedi cadw at yr un ddelwedd/trosiad ar hyd y gerdd a britho'r gerdd â geiriau perthnasol i'r ddelwedd.

**Delweddu**

Yn 'Cyfri'r gost' roeddwn am ddal sylw'r darllenydd yn syth a'r syniad a ges i oedd gwyrdroi darlun cyffredin. Creais y syniad bod y ffôn yn dal y fam yn hytrach na'r fam yn dal y ffôn i gyfleu'r ffaith ei bod yn gaeth i'r profiad. I gynnal y ddelwedd, nodais ychydig eirfa a llinellau yn ymwneud â gamblo; disgrifiais ei llygaid fel ceiniogau yn slots y ffair, disgrifiais sglein atyniadol y ffôn a bod adlewyrchiad wyneb y plentyn yn sgrin y ffôn fel cartŵn gan mai dyna yw ffurf llawer o'r gemau y bydd pobl yn eu chwarae ar-lein. Drwy ailadrodd rhai o'r llinellau roedd yn cyfleu rhyw fath y gylch diddiwedd yn union fel y mae'r peiriannau slot sy'n gwthio ceiniogau allan yn poeri ac yn llyncu'r un arian o hyd. Roedd hyn yn ddigon i gyfleu'r ddelwedd a oedd ei hangen arna i heb wthio'r syniad yn rhy bell, wrth gwrs. Y gwaith nesaf oedd adeiladu'r gerdd o gwmpas y ddelwedd neu adrodd y stori'n gynnil.

**Parhau â'r broses – gweithio – drafftio**
Rhan nesa'r broses yw symud geiriau, ychwanegu a hepgor a newid yn union fel jig-so. Rwy'n aml yn cyrraedd pwynt gyda'r gerdd lle rwy wedi syrffedu ar y cwbl ac yn meddwl am ei dileu i gyd a dechrau eto. Dyna pryd rwy'n gwybod bod angen gadael y gerdd i fod am rai dyddiau cyn mynd yn ôl ati. Dylai bardd bob amser bellhau oddi wrth ei waith am gyfnod, hyd yn oed os mai dim ond am awr neu ddwy y bydd hynny. Mae'n rhoi persbectif a gwrthrychedd i rywun. Pan af i nôl at y gerdd, fe fyddaf yn ei darllen yn oer, fel pe bawn heb fod yn rhan o'r broses o'i chreu o gwbl. Dyna pryd mae'n rhaid bod yn feirniadol, yn onest ac yn gadarn a bod yn fodlon dileu pethau. Weithiau, yn rhyfedd iawn, yr union linell neu ymadrodd neu glwstwr o eiriau ddaeth reit ar gychwyn y gerdd yw'r union eiriau sy'n cael eu dileu o'r gerdd ar y drafft terfynol. Mae'n cymryd profiad a dewrder i gyfaddef i chi'ch hun mai eich llinell wreiddiol chi, yr un roeddech yn dathlu eich bod wedi ei chreu, sy'n gorfod mynd.

Rwy fel arfer yn cadw'r ddelwedd ganolog. Byddaf wedi gorysgrifennu'r gerdd yn amlach na pheidio. Dyma pam mae'n rhaid edrych yn ffres ar gerdd. Gyda 'Cyfri'r gost' roeddwn wedi chwarae o gwmpas gyda'r syniad o gael y fam yn gwthio'r goets, yn siarad yn ddiamynedd â'r plentyn ac ati, ond teimlais y byddai'r gerdd yn fwy effeithiol o osod y fam a'r plentyn yn yr unfan heb eiriau o gwbl a heb symud fel bod y ffocws i gyd ar y ffôn. Pwynt y gerdd yw'r diffyg iaith rhwng y fam a'r plentyn. Defnyddiais y ddelwedd o'r plentyn yn syllu ar y fam ac yn estyn llaw, ac yn lle ymateb i'r plentyn y cwbl y mae'r fam yn ei wneud yw rhoi'r ffôn iddi i'w chadw'n dawel.

Yng nghyffro a gwres y foment, mae rhywun yn dueddol o bentyrru syniadau a geiriau. Cryfder y broses yw chwynnu'r geiriau hynny. Weithiau mae un gair yn fwy pwerus na chyfres ohonyn nhw. Prin iawn yw fy nefnydd o ansoddeiriau. Os nad yw'r darlun yn cael ei gyfleu yn ddigon da heb lwyth o ansoddeiriau yna mae rhywbeth o'i le ar y gerdd. Dydw i ddim yn caniatáu i mi fy hunan ddefnyddio mwy nag un neu ddau ansoddair mewn un gerdd. Mae sawl un yn gofyn sut y mae bardd yn gallu dweud bod ei gerdd yn gyflawn ac yn barod i fynd i brint neu i'w darllen ar dalwrn neu lwyfan gŵyl. Rhyw reddf sy'n datblygu gyda phrofiad yw'r gallu hwn. Pan fyddaf wedi cywasgu'r syniad a'r ddelwedd a chreu'r hyn rwy'n hapus i'w alw'n gerdd ac wedi tynnu unrhyw beth diangen ohoni, dyna pryd y byddaf i'n gwybod bod gen i ddrafft parod o'r gerdd. Ond nid cerdd orffenedig fydd hi. Wedi torri ei hasgwrn cefn yn unig y byddaf i. Mae sawl cam ar ôl o hyd yn y broses. Dylai bardd fyth fodloni ar y drafft cyntaf na'r ail na'r trydydd. Mae angen pellter eto rhwng y bardd a'r gerdd.

**Derbyn barn ac adborth**
Y cam nesaf i fi fydd darllen y gerdd i rywun arall. Rhywun onest. Mae hyn yn gallu bod yn boenus achos erbyn y cam yma byddaf wedi rhoi llawer o egni ac enaid i'r gerdd a byddaf yn eithaf hyderus fod gen i gerdd werth chweil, ac mae unrhyw feirniadaeth yn mynd i frifo neu gythruddo. Ond mae'n bwysig cael barn rhywun arall. Ac mae'n bwysig bod unrhyw beth nad yw'n glir yn cael ei wyntyllu a'i gwestiynu. Ond gwylier rhag ateb cwestiynau yn rhy dwt. Gyda 'Cyfri'r gost,' roedd gen i linellau, yn wreiddiol, a oedd yn egluro'r sefyllfa. Mae'n

duedd gwneud hyn rhag ofn bod pethau'n rhy ddryslyd. Mae angen elfen o ddirgelwch mewn cerdd, yn fy marn i, fel bod modd i'r darllenydd lenwi'r bylchau gyda'i syniadau ei hun neu weld pethau gwahanol i bobl eraill yn y gerdd. Dylai bardd ymatal rhag 'dweud' beth yw'r sefyllfa neu does dim pwynt i'r gerdd. Awgrymu a chreu chwilfrydedd ddylai bardd ei wneud. Os yw'r darllenydd yn dehongli'r gerdd yn hollol wahanol i fwriad y bardd, beth yw'r ots? Gall hyn fod yn arwydd o gryfder yn y gerdd.

Y cam olaf wedyn yw addasu unrhyw beth aneglur heb oregluro rhywbeth. Efallai y bydd un gair yn ormod yn y gerdd. Yn aml, y llinell olaf neu'r gair olaf yw'r elfen sydd angen ei cholli. Torrais i 'Cyfri'r gost' at yr asgwrn fel bod yr hyn a oedd ar y papur yn cael mwy o effaith. Yn wreiddiol roedd gen i linell olaf oedd yn dweud,

'Mae'r babi'n dweud tic toc.'

Ystyriais fod hyn yn rhy amlwg felly newidiais y diwedd i fod yn hollol oeraidd a syml sef,

'tic toc . . .'

Mae hyn felly'n cyfleu sawl peth; llais y plentyn, y platfform enwog ar y cyfryngau cymdeithasol a hefyd y syniad bod amser yn pasio dan ein trwynau tra ydym ni'n sefyll y tu hwnt i amser, mewn ffordd, yn y byd rhithwir oddi mewn i'n ffonau. Mae'n cyfleu hefyd y teimlad o wastraff ac oferedd sy'n dod o gamblo a chaethiwed i unrhyw arferiad.

Dywedodd Meirion Jones yr artist fod pwynt yn dod pan mae ei ddarluniau bron â bod yn dweud wrtho am adael llonydd iddyn nhw a dyna pryd mae'n amser rhoi'r brwsh i lawr. I mi, mae cerdd yr un peth. Mae rhywun yn gwybod yn reddfol pryd i osod y beiro i lawr, neu pryd i bwyso 'cadw' ar y cyfrifiadur. A dyna un o brofiadau gorau bywyd. Wrth gwrs, gellir dadlau nad yw cerdd byth yn orffenedig a bod amser yn newid bardd a cherdd. Ond mae honno'n stori arall . . .

***Cyfri'r gost***

Mae'n gwylio'r ffôn yn dal ei mam
yn sglein TikTok,

. . . dal ei llygaid
fel ceiniogau yn slots y ffair . . .

gwylio o'r pram,
estyn ei llaw at ei mam,
aros,

mae'r fam yn troi a rhoi'r ffôn,
yn hael,

i’w thawelu hi
ac mae hithau’n gweld ei hun mewn cartŵn,
a’i dwy lygad yn sglein y sgrin
fel ceiniogau
yn slots y ffair . . .

tic toc . . .

Awdur, golygydd a bardd profiadol yw **Mari George** sydd wedi ennill sawl gwobr am ei barddoniaeth. Cyhoeddodd gasgliad o gerddi, *Siarad Siafins* yn 2014 ac yna’r pamffled o gerddi siambr, *Rhaff*, yn 2024. Mae’n aelod o dîm Aberhafren ar y rhaglen boblogaidd, *Y Talwrn* (BBC Radio Cymru). Enillodd ei nofel gyntaf i oedolion, *Sut i Ddofi Corryn* (2023), brif wobr Llyfr y Flwyddyn yn 2024.

**Cyfeiriadau**
Mae nifer o gerddi a gornestau *Y Talwrn* i’w gweld a’u clywed ar wefan BBC Radio Cymru.
Ewch i: BBC Radio Cymru - Y Talwrn

*Cyhoeddiad Mynediad Agored: CC BY-SA 4.0*

*Mae’r testun hwn wedi’i ryddhau dan y drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy’n eich caniatáu i’w ail-ddefnyddio a’i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth ar ffurf dolen i’r dudalen hon, ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Gweler testun y drwydded am ragor o fanylion.*